

Kirsty Williams AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

8 Awst 2017

Annwyl Kirsty,

Athrawon cyflenwi yng Nghymru: cais am ddiweddariad ar gasgliadau ac argymhellion allweddol a wnaed gan Bwyllgor PPIA y Pedwerydd Cynulliad

Gweler ynghlwm yr ohebiaeth a dderbyniwyd gan holl Aelodau'r Cynulliad ar 22 Gorffennaf yn ymwneud â threfniadau ar gyfer athrawon cyflenwi yng Nghymru.


Yng ngoleuni gwaith y Pwyllgor blaenorol yn ystod y Pedwerydd Cynulliad ar athrawon cyflenwi gofynnwyd i mi ymateb yn rhinwedd fy swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg presennol. Atodaf fy ymateb er gwybodaeth.

Er mwyn llywio ystyriaeth y Pwyllgor o'r mater hwn, byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd mewn perthynas â chasgliadau ac argymhellion allweddol Pwyllgor y Pedwerydd Cynulliad. Byddwn yn arbennig o ddiolchgar am amlinelliad manwl o'r camau a gymerwyd hyd yn hyn i weithredu argymhelliad cyntaf y Pwyllgor blaenorol:

Dylai Llywodraeth Cymru ddechrau gweithio i gynllunio model newydd ar gyfer cyflogi athrawon cyflenwi. Wrth wneud yr argymhelliad hwn, mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod y contract presennol yn rhedeg tan fis Awst 2018 ond yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddechrau gweithio yn awr i sicrhau bod y system newydd yn ei lle yn barod.

Byddwn yn ddiolchgar o dderbyn ymateb erbyn diwedd mis Medi 2017.

Yn gywir,



Lynne Neagle AC
Cadeirydd

